| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD PENSIWN** |
| **DYDDIAD** | **17 MAI 2019** |
| **TEITL** | **PRESENOLDEB MEWN CYNADLEDDAU** |
| **PWRPAS** | **DEWIS CYNRYCHIOLWYR I FYNYCHU CYNADLEDDAU** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r eitem hon gerbron er mwyn hysbysu'r aelodau am gynadleddau perthnasol a phenderfynu pwy i fynychu ar ran Cronfa Gwynedd.

**1.2** Mae'r Cyngor yn anfon cynrychiolwyr ar sail rota i nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau a swyddogion.

## 2. DIGWYDDIADAU "ARFEROL"

Mae'r 2 gynhadledd "arferol" blynyddol canlynol wedi'u trefnu ar gyfer 2019/20 -

**2.1** Cynhadledd Flynyddol y 'Local Authority Pension Fund Forum' (LAPFF), sy'n cael ei gynnal ar 4-6 Rhagfyr 2019 yn yr Hilton, Bournemouth (**Atodiad 1**). Fel arfer, y Pennaeth Cyllid neu'r Rheolwr Buddsoddi sy'n mynychu Cynhadledd Flynyddol yr 'LAPFF', gydag un aelod o'r Pwyllgor Pensiynau (fel arfer y Cadeirydd) ac un aelod o'r Bwrdd Pensiwn.

**2.2** Cynhadledd Llywodraethu'r CPLlL, Cynhadledd "Ymddiriedolwyr" gynt, sy'n cael ei gynnal yn y Principal Hotel, York ar 23-24 Ionawr 2020 (**Atodiad 2**, eitem 10-13). Yn ddiweddar, mae 1 aelod o'r Bwrdd Pensiwn a 2 aelod o'r Pwyllgor Pensiynau, ynghyd â swyddog, wedi mynychu Cynhadledd Llywodraethu'r CPLlL ym Mryste.

## 3. DIGWYDDIADAU YCHWANEGOL

**3.1** Mae Cynhadledd flynyddol ‘Responsible Investor’s 12th Annual RI Europe Investment Conference’ yn cael ei gynnal yn 133 Houndsditch, Liverpool Street, Llundain ar 11-12 Mehefin 2019 **(Atodiad 3)**. Mae un aelod o’r Bwrdd wedi mynychu’r digwyddiad yma yn y gorffennol (dim cost i fynychu), a gallwn ystyried anfon aelodau eto eleni.

**3.2** Mae’r ‘LGC Investment Seminar’ yn cael ei gynnal yn Carden Park, Swydd Gaer ar 27-28 Chwefror 2020 (dim manylion pellach ar hyn o bryd). Yn hanesyddol, cymerwyd un lle am ddim, a gallwn ystyried anfon mwy o aelodau i’r digwyddiad ‘lleol’ yma.

## 4. DIGWYDDIADAU CIPFA AR GYFER BYRDDAU PENSIWN

**4.1** Bydd angen enwebu aelod o’r Bwrdd i fynychu ‘Digwyddiad Blynyddol CPLlL i Aelodau Byrddau Pensiwn Lleol’ CIPFA yn Llundain ar 26 Mehefin 2019 **(Atodiad 4)**.

**4.2** Ar hyn o bryd, nid ydym wedi derbyn gwybodaeth gan CIPFA am seminarau hanner diwrnod yr hydref ar gyfer aelodau’r Bwrdd, ond bydd swyddogion yn hysbysu aelodau’r Bwrdd am rhain, ac unrhyw ddigwyddiadau dilynol, ar dderbyn gwybodaeth gan CIPFA neu’r rhwydwaith byrddau Cymreig.

## 5. GWERTH Y DIGWYDDIADAU

**5.1** Gan fod aelodau’r Bwrdd Pensiwn yn craffu ar faes arbenigol sy’n datblygu’n gyson, mae’n hanfodol fod aelodau yn adeiladu ar ei hyfforddiant sylfaenol ac yn sicrhau gwybodaeth gyfredol o’r cyd-destun CPLlL trwy fynychu digwyddiadau addas fel rhain.

## 6. ARGYMHELLIAD

**6.1** Gofynnir i’r Bwrdd ddewis cynrychiolwyr o’r Bwrdd Pensiwn i fynychu’r 5 digwyddiad uchod.